Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 15 May 2024 at The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

**Councillors Present:** Cllrs Ian Scott (Chair), Phil Keeton, Will Thomas, Angela O'Connor and Pam Erasmus

**Officers Present:** Kerry Grabham – the Clerk, and Ian Hughes - CSO

**Others Present:** Kimberley Littlemore of Mumbles Yacht Club and Cllr Richard Jarvis were present until the conclusion of agenda item **CM2405-03** (Mumbles Yacht Club Presentation). Cllr Rob Marshall was also present for part of this presentation.

**CM2405-01** **Apologies:** Cllr Francesca O'Brien and Rhian Evans

**CM2405-02** **Declarations of Interest**

Cllr Richard Jarvis declared a personal interest in relation to agenda item **CM2405-03** as he is a member of Mumbles Rowing Club.

**CM2405-03** **Mumbles Yacht Club Presentation**

Kimberley Littlemore of Mumbles Yacht Club (MYC) gave a presentation on behalf of The MYC Strategy Group, this included the financial situation and various options that had been considered to address concerns. In addition to financial considerations Kimberley detailed the importance of MYC to the wider community including the improvement to people's mental health. The range of facilities being provided by MYC has increased dramatically since its formation in 1938 and if these proposals are acted upon additional facilities will be provided to the whole of Swansea and beyond.

Kimberley outlined plans to build a new yacht club facility on the seafront opposite their current location. The funding for this new complex would be made through the sale of their existing premises and lottery money and it is hoped to achieve 500 feedback responses from the public to assist with this funding. Kimberley stated that all stakeholders including Swansea City Council and MCC had been very supportive and enthusiastic about the project, it is hoped that the project will be completed with two years.

Cllr Rob Marshall joined the meeting at 6.44pm, he briefly left at 6.51pm before returning at 6.53pm. Cllr Angela O'Connor joined the meeting at 6.48pm

All Councillors were enthusiastic about the MYC Project and congratulated Kimberley on her efforts to date. The presentation and the preparatory work already carried out were of the highest standard and suggestions were made for raising additional funds through the participation of local school children and hosting a stall at MumblesFest.

The full presentation, together with the remainder of the meeting is available on The MCC Website.

**ACTION:** Links to surveys and crowd funding to be sent to CSO by Kimberley who will arrange for these to be inserted onto MCC Website

At the conclusion of the presentation Kimberly Littlemore, together with Cllrs Jarvis and Marshall left the meeting at 7.01pm

**CM2405-04** **Elect Vice Chair for Committee**

Deferred to June's Meeting due to all Committee Councillors needing to be considered.

**CM2405-05** **To approve the minutes of the previous meeting as a true record.**

**RESOLVED** to approve the minutes from the 20th of March 2024, meeting as a true and accurate record.

**CM2405-06** **Outstanding Actions from Previous Meetings**

CSO outlined outstanding actions.

**RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO.

**CM2405-07** **Budget Monitoring Report to 31/03/2024**

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to councillors. In the absence of the RFO, The Clerk offered to take questions on his behalf. No queries regarding the financial reports had been raised with The RFO prior to the meeting.

A brief discussion took place regarding the tendering process connected to the fencing and resurfacing of Langland Basketball Court, though no actions were generated as a consequence.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring reports to 31st March 2024

**CM2405-08** **To approach SCC regarding Community Asset Transfer of Henebont Gardens at a Peppercorn Rent.**

A discussion took place on the use by local traders of Hennebont Gardens. These practices had been brought in to assist local traders during the Covid Pandemic, and the rules had been relaxed in 2023 but were not progressed due to the passing of the then Clerk. Discussions centred on whether the current situation, whereby traders within 100metres of The Gardens had access for customers and who should take responsibility for the upkeep. Currently the traders maintain The Gardens on an ad-hoc basis, but this would need to be formalised or MCC take over full responsibility, with the traders being charged to cover the costs incurred.

**ACTION:** Cllr Will Thomas and The Clerk to discuss proposals which will be brought to June's Meeting.

**CM2405-09** **Exercise Equipment on West Cross Seafront**

A discussion took place concerning the ageing exercise equipment along West Cross Seafront which is nearly ten years old and reaching its life expectancy for good and safe usage. Whilst some quotes had been obtained at a cost of £1,800 per item of equipment, plus a £200 installation fee by Swansea City Council, the committee believed that further research into suitable equipment was necessary. The replacement of equipment will need to carried out incrementally and consideration given to more expensive equipment, provided it is more robust.

**ACTION:** Cllr Will Thomas to research suitable equipment including quotes and update June's Committee Meeting.

**CM2405-10** **To agree agenda items for June's Meeting**

The RFO, Paul Beynon will be attending June's Meeting. In addition to providing the usual monthly financial budget report, he will be asked to update the committee on the Hennebont Asset Transfer.

Meeting finished 7.27pm

Next Meeting 19th June 2024

Mumbles Community Council

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd am 6.30pm ar 15 Mai 2024 yng Nghanolfan Ostreme a thrwy TEAMS

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Ian Scott (Cadeirydd), Phil Keeton, Will Thomas, Angela O'Connor a Pam Erasmus

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – y Clerc, ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Eraill yn bresennol: Roedd Kimberley Littlemore o Glwb Hwylio'r Mwmbwls a'r Cynghorydd Richard Jarvis yn bresennol hyd nes y daeth eitem agenda **CM2405-03** i ben
(Cyflwyniad Clwb Hwylio'r Mwmbwls). Roedd y Cynghorydd Rob Marshall hefyd yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyflwyniad hwn.

**CM2405-01** **Ymddiheuriadau:** y Cynghorydd Francesca O'Brien a Rhian Evans

**CM2405-02** **Datganiadau o fuddiant**
Datganodd y Cynghorydd Richard Jarvis fuddiant personol mewn perthynas ag eitem agenda **CM2405-03** gan ei fod yn aelod o Glwb Rhwyfo'r Mwmbwls.

**CM2405-03** **Cyflwyniad Clwb Hwylio'r Mwmbwls**
Cafwyd cyflwyniad gan Kimberley Littlemore o Glwb Hwylio'r Mwmbwls ar ran Grŵp Strategaeth Clwb Hwylio'r Mwmbwls, gan gynnwys y sefyllfa ariannol a'r opsiynau amrywiol a ystyriwyd i fynd i'r afael â phryderon. Yn ogystal ag ystyriaethau ariannol, manylodd Kimberley ar bwysigrwydd Clwb Hwylio'r Mwmbwls i'r gymuned ehangach gan gynnwys y gwelliant i iechyd meddwl pobl. Mae ystod y cyfleusterau a ddarperir gan Glwb Hwylio'r Mwmbwls wedi cynyddu'n aruthrol ers ei ffurfio ym 1938 ac os gweithredir ar y cynigion hyn bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu i Abertawe gyfan a thu hwnt. Amlinellodd Kimberley gynlluniau i adeiladu cyfleuster clwb hwylio newydd ar lan y môr gyferbyn â'u lleoliad presennol. Byddai'r cyllid ar gyfer yr adeilad newydd

hwn yn cael ei godi trwy werthu eu hadeiladau presennol ac arian y loteri a'r gobaith yw cael 500 o ymatebion adborth gan y cyhoedd i gynorthwyo i godi'r cyllid hwn.
Dywedodd Kimberley fod yr holl randdeiliaid gan gynnwys Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Cymuned y Mwmbwls wedi bod yn gefnogol iawn ac yn frwdfrydig am y prosiect, a'r gobaith yw y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau ymhen dwy flynedd.
Ymunodd y Cynghorydd Rob Marshall â'r cyfarfod am 6.44pm, gadawodd am ychydig am 6.51pm cyn dychwelyd am 6.53pm. Ymunodd y Cynghorydd Angela O'Connor â'r cyfarfod am 6.48pm

Roedd pob cynghorydd yn frwd dros Brosiect Clwb Hwylio'r Mwmbwls a gwnaethant longyfarch Kimberley ar ei hymdrechion hyd yn hyn. Roedd y cyflwyniad a'r gwaith paratoi a wnaed eisoes o'r safon uchaf a gwnaed awgrymiadau ar gyfer codi arian ychwanegol drwy gyfranogiad plant ysgol lleol a chynnal stondin yng Ngŵyl y Mwmbwls.

Mae'r cyflwyniad llawn, ynghyd â gweddill y cyfarfod ar gael ar wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU:**Kimberley i anfon dolenni i arolygon a chyllido torfol i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau a fydd yn trefnu i'r rhain gael eu mewnosod ar wefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Ar ddiwedd y cyflwyniad, am 7.01pm, gadawodd Kimberly Littlemore, ynghyd â'r Cynghorwyr Jarvis a Marshall, y cyfarfod

**CM2405-04** **Ethol is-gadeirydd y pwyllgor**

Wedi'i ohirio tan gyfarfod mis Mehefin oherwydd bod angen ystyried holl gynghorwyr y pwyllgor.

**CM2405-05** **Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel rhai cywir.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 fel cofnod gwir a chywir.

**CM2405-06** **Camau gweithredu heb eu cwblhau o'r cyfarfodydd blaenorol**
Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu oedd ar ôl.

**PENDERFYNWYD** bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru adroddiad 'camau gweithredu heb eu cyflawni'.

**CM2405-07** **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31/03/2024**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i gynghorwyr yn flaenorol. Yn absenoldeb y Swyddog Ariannol Cyfrifol, cynigiodd y Clerc gymryd cwestiynau ar ei ran. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiadau ariannol gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â'r broses dendro yn ymwneud â ffensio a gosod wyneb newydd ar gwrt pêl-fasged Langland, er na chafwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Mawrth 2024

**CM2405-08** **Cysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch Trosglwyddo Asedau Cymunedol Gerddi Hennebont am rent hedyn pupur.**

Cafwyd trafodaeth ar ddefnydd masnachwyr lleol o Erddi Hennebont. Roedd yr arferion hyn wedi'u cyflwyno i gynorthwyo masnachwyr lleol yn ystod pandemig COVID-19, ac roedd y rheolau wedi'u llacio yn 2023 ond ni ddatblygwyd y cynlluniau oherwydd marwolaeth y Clerc ar y pryd. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar a oedd y sefyllfa bresennol, lle roedd gan fasnachwyr o fewn 100 metr i'r gerddi fynediad ar gyfer eu cwsmeriaid a phwy ddylai gymryd cyfrifoldeb am y gwaith cynnal a chadw. Ar hyn o bryd mae'r masnachwyr yn cynnal a chadw'r gerddi ar sail ad hoc, ond byddai angen trefniant ffurfiol ar gyfer hyn neu byddai Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cymryd cyfrifoldeb llawn ac yn codi tâl ar y masnachwyr am y gwaith..

**CAM GWEITHREDU:**Cynghorydd Will Thomas a'r Clerc i drafod cynigion a'u dwyn gerbron cyfarfod mis Mehefin.

**CM2405-09** **Offer Ymarfer Corff ar Lan Môr West Cross**

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr offer ymarfer corff ar hyd glan môr West Cross sydd bron yn ddeg oed, yn mynd yn hen ac mae'r defnydd da a diogel y gellir ei gael ohono yn dod i ben. Er y cafwyd rhai dyfynbrisiau ar gost o £1,800 yr eitem o offer, ynghyd â ffi gosod o £200 gan Gyngor Dinas Abertawe, credai'r pwyllgor fod angen gwneud rhagor o waith ymchwil i offer addas. Bydd angen ailosod offer yn rannol ac ystyried offer drutach, ar yr amod ei fod yn fwy cadarn.

**CAM GWEITHREDU:**Cynghorydd Will Thomas i ymchwilio i offer addas gan gynnwys dyfynbrisiau a diweddaru cyfarfod pwyllgor mis Mehefin.

**CM2405-10** **Cytuno ar eitemau agenda ar gyfer cyfarfod mis Mehefin**

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, yn mynychu cyfarfod mis Mehefin. Yn ogystal â darparu'r adroddiad cyllideb ariannol misol arferol, gofynnir iddo ddiweddaru'r pwyllgor ar drosglwyddo asedau Hennebont.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.27pm

Cyfarfod nesaf 19 Mehefin 2024